**CYD-BWYLLGOR CRAFFU DINAS-RANBARTH BAE ABERTAWE**

**(Remotely via Teams)**

| **Aelodau sy'n Bresennol:** | **Dydd Mawrth, 23 Tachwedd 2021** |
|---|---|
| **Cadeirydd:** | **Cynghorydd R.James** |
| **Is-gadeirydd:** | **Cynghorydd S.Rahaman** |
| **Cynghorwyr**: | P.Downing, M.Evans, J.Adams, T.Baron, G.Morgan, D.Price and J.Jones |
| **Swyddogion sy'n Bresennol:** | M.Shaw, J.Burnes, R.Arnold, O.Gavigan, L.Willis, S.Brennan, P.Ryder and A.Thomas |

## 1. CROESO A GALW'R ENWAU

Croesawodd y Cadeirydd bawb i'r cyfarfod.

## 2. CYHOEDDIAD Y CADEIRYDD

Nid oedd unrhyw gyhoeddiadau.

## 3. DATGANIADAU O FUDDIANNAU

Ni dderbyniwyd unrhyw ddatganiadau o fuddiannau.

## 4. CARTREFI FEL GORSAFOEDD PŴER

Croesawodd y Cadeirydd Lisa Willis ac Oonagh Gavigan i'r cyfarfod. Rhoddwyd cyflwyniad i'r Aelodau ar Gartrefi fel Gorsafoedd Pŵer, gan Reolwr y Prosiect, Oonagh Gavigan.

Cymeradwywyd y prosiect gan Lywodraeth Cymru a Llywodraeth y DU ym mis Gorffennaf 2021. Mae'n brosiect rhanbarthol dan arweiniad Cyngor Castell-nedd Port Talbot. Nod y prosiect yw hwyluso'r ymagwedd Cartrefi fel Gorsafoedd Pŵer. Mae hyn yn

golygu integreiddio dyluniad ynni effeithlon a thechnolegau adnewyddadwy mewn 10,300 o gartrefi newydd a phresennol.

Mae gan y prosiect nifer o amcanion allweddol. Mae'r rhain yn cynnwys mabwysiadu’r cysyniad Cartrefi fel Gorsafoedd Pŵer fel un prif ffrwd; creu cartrefi deallus/clyfar sy'n defnyddio ynni'n effeithlon; lleihau allyriadau carbon; lleihau tlodi tanwydd; gwella iechyd a lles; creu a chefnogi cadwyn gyflenwi fedrus a rhannu gwybodaeth/data i alluogi hyn i ddigwydd. Er mwyn cyflawni'r amcanion mae sawl ffrwd ariannu ar gael, gan gynnwys y gronfa Cymhellion Ariannol gwerth £5.75m a Chronfa Datblygu Sgiliau’r Gadwyn Gyflenwi gwerth £7m.

Bydd y prosiect yn gweithio ochr yn ochr â'r rhaglen Sgiliau a Thalent i sicrhau bod gan bobl y sgiliau a'r hyfforddiant angenrheidiol i gefnogi'r rhaglen.

Bydd y prosiect yn dod o hyd i sefydliad annibynnol i fonitro a gwerthuso'r gwahanol ddyluniadau a thechnolegau er mwyn sicrhau bod y rhaglen yn cael ei dysgu a'i gwerthuso'n barhaus. Y gyllideb ar gyfer hyn yw £1m. Bydd hyn yn sicrhau set gynhwysfawr a chywir o ddata a chanlyniadau i lywio'r prosiect wrth iddo ddatblygu. Mae'r meysydd sydd wedi'u cynnwys yn y gwerthusiad yn cynnwys perfformiad, amodau amgylcheddol, costau tanwydd a thlodi, ymddygiad amgylcheddol, costau a gwelliannau iechyd a lles. Bydd yr wybodaeth a geir yn cael ei rhannu drwy'r ganolfan wybodaeth mynediad agored.

Aeth Ms Gavigan drwy ddatblygiad cynllun peilot y prosiect yng Nghastell-nedd. Y cynllun oedd un o'r prosiectau cynharaf, a ariannwyd gan raglen Tai Arloesol Llywodraeth Cymru. Mae'n cynnwys nifer o bartneriaid ac mae wedi creu 16 o gartrefi i storio a chreu ynni solar.

Gohiriwyd cwblhau'r prosiect tan fis Tachwedd 2020. Penodwyd Sero i barhau i gasglu data gan systemau a thenantiaid.

Rhoddodd Ms Gavigan yr wybodaeth ddiweddaraf am y prosiect cyffredinol hyd yma. Mae Rheolwr Prosiect wedi’i benodi. Mae trafodaethau bellach wedi dechrau gydag arbenigwyr TG i benderfynu sut y caiff y data ei rannu orau a sut y bydd canolfan rannu'n cael ei chreu a fydd yn hygyrch i bartïon â diddordeb. Ar hyn o bryd, mae map o fentrau'n cael ei benderfynu i ychwanegu gwerth a gwella'r cysyniad Cartrefi fel Gorsafoedd Pŵer. Mae swyddogion

hefyd wrthi'n mapio cadwyn gyflenwi i gefnogi ceisiadau i gronfa datblygu'r gadwyn gyflenwi.

Y camau nesaf yw recriwtio gweddill y tîm a sefydlu a chael cymeradwyaeth gyfreithiol i ledaenu'r ffrydiau ariannu. Bydd y tîm hefyd yn dechrau caffael y gwaith monitro a gwerthuso yn gynnar y flwyddyn nesaf.

Holodd yr Aelodau ble mae'r cyllid o ran buddsoddiad preifat a chyhoeddus ar hyn o bryd. Mae diddordeb sylweddol yn y prosiect o'r sector cyhoeddus. Ond gyda’r sector preifat, yn enwedig mentrau bach i ganolig, mae'n anodd eu cael i gymryd rhan nes y bydd angen iddynt wneud hynny, gan eu bod yn aml yn cael eu hysgogi gan yr ochr ariannol a bydd angen lleihau costau.

Mae'r gwaith monitro a gwerthuso’n rhan allweddol o'r prosiect ac mae swyddogion yn awyddus i sicrhau bod proses safonedig ar waith fel y gellir cymharu data ar draws rhanbarth y de-orllewin. Mae monitro o ran cost, defnydd a charbon. Hefyd, eir ati i fonitro’r effaith ar fywydau pobl ac agweddau eraill ar draws y rhanbarth h.y. iechyd.

Mae'r gwaith o fonitro'r prosiect peilot yn cael ei wneud ar hyn o bryd. Wrth i hyn gael ei wneud, mae'r prosesau i gasglu data’n cael eu manwl gyweirio er mwyn sicrhau y cesglir y data sy’n angenrheidiol. Gwneir hyn ar draws pedwar tymor y flwyddyn.

Holodd yr Aelodau, o ran trosglwyddo gwybodaeth ac eiddo deallusol, a oes cyfle i unrhyw werth gael ei ychwanegu at y rhanbarth ac unrhyw gyfle i incwm ddeillio ohono? Mae datblygu'r gadwyn gyflenwi’n elfen allweddol. Mae tri pheth allwedd yn hyn – system ynni ddeallus, pympiau gwres a storfeydd batris. Mae'r swyddogion yn gweithio gyda sefydliadau amrywiol i wneud hyn. Mae'n bwysig sefydlu cadwyn gyflenwi dda ac mae hwn yn bwynt allweddol yn y strategaeth i ddod ag incwm i'r rhanbarth.

Holodd yr Aelod faint o swyddi newydd fydd yn cael eu creu, yn benodol rolau prentisiaid? Cydnabu swyddogion nad oes gan y rhanbarth, nac yn wir y DU, y sgiliau sydd eu hangen i ddatblygu'r prosiect ar y cyflymder y mae angen ei ddatblygu. Mae'n aml yn anodd recriwtio. Mae'r prosiect yn gweithio gyda'r colegau a'r prifysgolion i bontio'r bwlch sydd ei angen.

Holodd yr Aelodau a yw'r amcangyfrif o swyddi ar gyfer y datblygiad hwn yn unig? Mynegodd yr Aelodau ymagwedd ofalus o ran faint o

swyddi a gaiff eu priodoli i'r prosiect. O ran cyllid, os yw'n brosiect safonol, mynegodd yr Aelod ei bryder y gallai fod yn rhwystr i'r sector preifat ac o bosib y sector cyhoeddus i fuddsoddi.

Daw rhan helaeth o'r swyddi o ddatblygiad y gadwyn gyflenwi. Mae nifer o gwmnïau ar draws y rhanbarth wedi dechrau arallgyfeirio ac mae swyddogion yn ystyried sut y gallant ffitio i mewn i'r gadwyn gyflenwi. Er nad ydynt efallai'n datblygu'r cynnyrch terfynol cyffredinol, gallant helpu i ddatblygu'r gwahanol elfennau i gyflawni'r canlyniad terfynol.

Gofynnodd yr Aelodau am amserlenni a cherrig milltir i nodi cynnydd ar y prosiect. Gofynnodd yr Aelodau hefyd am ddadansoddiad risg mewn perthynas â rhagweld problemau ac unrhyw gamau lliniaru a gymerir mewn perthynas â hyn. Cadarnhaodd swyddogion fod dadansoddiad risg yn rhan o'r achos busnes a bydd hyn yn cael ei ddiweddaru yn ôl yr angen. At hynny, bydd gwybodaeth fanylach yn cael ei rhoi i'r Aelodau yn y diweddariad nesaf ar y prosiect.

Trafododd swyddogion rannu gwybodaeth a nodwyd y dylid ei rhannu o fewn y sector cyhoeddus ond mae'n bwysig ei bod yn cael ei lledaenu i'r sector preifat hefyd. Bydd hyn yn sicrhau bod y prosiect yn tyfu ar y cyflymder y mae angen iddo, er mwyn iddo fod yn llwyddiannus.

Holodd yr Aelodau a oedd unrhyw gylch gwaith i'w gynnwys yn y prosesau cyn gwneud penderfyniadau. Dywedodd swyddogion y byddai hyn yn cael ei groesawu a byddent yn aros am ragor o wybodaeth gan y Pwyllgor o ran yr hyn yr oeddent am ei ystyried.

O ran amserlen 15 mlynedd y prosiect, dywedodd swyddogion y byddai llawer o'r gwaith yn cysylltu'r dechnoleg sy'n datblygu â'r gwaith adeiladu. Roeddent yn awyddus i sicrhau bod y prosiect yn cael ei gyflawni o fewn yr amserlen a amlinellwyd.

Diolchodd yr aelodau i'r swyddogion am ddod i'r cyfarfod.

## 5. **ADRODDIAD MONITRO ARIANNOL**

Aeth Richard Arnold drwy'r adroddiad.

Roedd yr adroddiad yn ymwneud â Chwarter 1. Dywedwyd wrth yr Aelodau y dylai Chwarter 2 fod yn barod erbyn y cyfarfod nesaf (yn dilyn cymeradwyaeth yn y Cyd-bwyllgor).

Amlinellodd Mr Arnold y strwythur ariannol. Mae'r Cyd-bwyllgor yn cynnwys y swyddogaethau cymorth a’r gronfa buddsoddi mewn portffolios yw'r grant sydd i'w defnyddio dros 15 mlynedd.

Paratoir datganiad ariannol annibynnol ar gyfer y Fargen Ddinesig sy'n annibynnol ar yr awdurdod cynnal, Sir Gâr, a chaiff y datganiad ei archwilio’n annibynnol hefyd.

Mae Atodiad A yn seiliedig ar y sefyllfa alldro a ragwelir ar gyfer y flwyddyn. Mae cyllideb weithredol gytunedig bum mlynedd ar waith ar gyfer y Fargen, sy'n gweithredu ym mlwyddyn 2 ar hyn o bryd. Fodd bynnag, mae'r Fargen Ddinesig ym mlwyddyn 4, ac roedd y Cyd-bwyllgor yn bodoli ar ffurf gysgodol wrth benodi a bu cyfnod pontio o chwe mis i’r strwythur cyfrifyddu ffurfiol i ymdrin ag ef.

Aeth Mr Arnold drwy'r amcanestyniad diwedd blwyddyn ar gyfer y Cyd-bwyllgor, y Cyd-bwyllgor Craffu a hefyd y Swyddfa Rheoli Portffolio.

Mae cyfraniadau cyllid yn cynnwys cyfraniadau refeniw grant a'r wyth cyfraniad partner.

Dywedodd Swyddogion fod diffyg oherwydd mater amseru. Roedd hyn oherwydd oedi cyn i'r achosion busnes gael eu cymeradwyo. Mae'r prosiect yn cael ei gefnogi ar hyn o bryd o'r cronfeydd wrth gefn. Fodd bynnag, nid oedd unrhyw bryderon am hyn a rhagwelir y byddai'r cyllid yn sefydlogi.

Mae’r gronfa buddsoddi mewn portffolios mewn sefyllfa alldro sy'n seiliedig ar 15 mlynedd ac mae'n seiliedig ar y penawdau telerau cyffredinol. Yn erbyn y rhain mae'r fargen yn dangos diffyg ar fuddsoddiad o oddeutu £37m (3%). Rhagwelir y bydd y pecyn buddsoddi ym mlwyddyn 15 yn £1.237biliwn.

Mae tabl Rhagolwg Buddsoddiad y Rhaglen yn amlinellu gwybodaeth benodol ar lefel prosiect. Amcangyfrifir bod 4% o gostau refeniw o fewn y gyllideb.

O ran y Gronfa Buddsoddi mewn Portffolios, holodd aelodau a ellid dadansoddi hyn yn flynyddol. Faint y mae cwmnïau preifat wedi'i

fuddsoddi a faint y mae'r awdurdodau unigol wedi'i roi drwy eu pwerau benthyca hyd yma? Dywedodd swyddogion y gellid cyflwyno hyn mewn cyfarfod yn y dyfodol. Roedd yr aelodau'n awyddus i sicrhau bod incymau a gwariant amcanol a ragwelwyd yn cael eu bodloni.

Bydd y proffiliau gwireddu buddion yn rhannu'r manteision ar lefel y portffolio am y 15 mlynedd. Byddant yn darparu swyddi gwerth ychwanegol gros a'r buddsoddiad a ragwelir hyd at ddiwedd y portffolio. Byddant hefyd yn darparu buddion ehangach y rhaglen a'r prosiectau a gyflwynir.

Dywedodd Mr Burnes wrth yr Aelodau fod gwerth ychwanegol gros yn ddangosydd macro-economaidd ac maent yn ceisio eglurder gan Lywodraethau Cymru a'r DU o ran sut i'w briodoli i brosiect a'i ddatblygu i leoliad rhanbarthol ehangach. Yn ogystal â hyn, sut y dylid ei gyflwyno i Lywodraethau.

Trafododd yr Aelodau'r bwlch ariannu a grëwyd gan ddyddiadau cwblhau'r prosiect a ragwelir a'r cyllid a ddefnyddiwyd gan y Llywodraeth. Cydnabu'r Aelodau mai dyma lle y bydd angen i awdurdodau fenthyca i gefnogi'r bwlch cyllido.

## 6. **<u>ARGYMHELLION ARCHWILIO MEWNOL - DIWEDDARIAD</u>**

Rhoddodd Mr Jonathan Burnes ddiweddariad llafar ar argymhellion yr Archwilio Mewnol. Roedd pedwar argymhelliad allweddol o'r archwiliad – mae un bron â'i gwblhau, mae dau wedi'u cau a bydd un yn parhau.

Roedd yr argymhelliad cyntaf yn ymwneud â chytundebau ffurfiol. Maent yn cynnwys y pedwar sefydliad – dau fwrdd iechyd a dwy brifysgol. Cadarnhawyd nad ydynt yn bartneriaid llofnodedig ar Gytundeb Gwaith y Cyd-bwyllgor, ond maent yn bartneriaid o fewn y Fargen Ddinesig. Mae cytundebau wedi'u hanfon at y pedwar corff, mae tri ohonynt wedi'u derbyn yn ôl a disgwylir y pedwerydd un yn fuan. O ran y datganiadau o fuddiannau, mae proses bellach ar waith. Cafwyd cyfradd ymateb o 93% a chadarnhaodd swyddogion eu bod yn aros am eglurhad ynglŷn ag addasrwydd ffurflenni datganiad o fudd y Bwrdd Strategaeth Economaidd.

Yn ail, o ran y fethodoleg sgorio risg, roedd yn ofynnol adolygu hyn fel rhan o argymhellion yr Archwilio Mewnol. Roedd angen ystyried y risg gynhenid a gweddilliol. Mae hyn bellach wedi'i gwblhau.

Roedd y trydydd argymhelliad yn ymwneud â chofnodi cyflawniad canlyniadau, allbynnau ac effeithiau. Y nod yw sicrhau bod monitro gwireddu buddion manwl ar waith ar gyfer y chwarter nesaf (C3). Ar ddiwedd y flwyddyn ariannol, dylai'r sefyllfa alldro fod yn glir ac yna gellir monitro hyn yn erbyn yr amcanestyniad achosion busnes. O'r pwynt hwn ac yn y dyfodol, dylai fod cynllun gwireddu buddion cwbl weithredol ar waith.

Roedd yr argymhelliad diwethaf yn ymwneud â chyllid y sector preifat. Roedd yr argymhelliad yn gofyn am fonitro'r cyllid hwn yn ofalus a sicrhau bod cynllunio wrth gefn ar waith pe na bai'r cyllid yn cael ei wireddu. Mewn ymateb i hyn, ceir monitro chwarterol, crëwyd fframwaith ar gyfer ymgysylltu â gweithgarwch busnes masnachol y mae angen i'r pedwar awdurdod lleol ei gymeradwyo.

Holodd yr Aelodau am fynediad y cyhoedd at y datganiadau o fuddiant. Mewn perthynas â hyn, ar y pryd mae trafodaethau’n parhau ynglŷn â datganiadau pwy sy’n cael eu cynnwys h.y. aelodau a/neu swyddogion. Bydd datganiadau'n cael eu rhoi ar y wefan pan fydd hyn wedi'i benderfynu. Awgrymodd yr Aelodau y dylid cynnwys swyddogion hefyd.

Ynghylch rheoli risgiau, holodd yr Aelodau a oedd y mapiau llifogydd newydd wedi'u cynnwys ar y risgiau gan eu bod yn peri risg sylweddol i rai prosiectau. Cadarnhaodd swyddogion fod hyn wedi'i raeadru i lefel y prosiect a'i ystyried. Mae prosiectau'n mynd rhagddynt yn ôl y bwriad.

Gofynnodd yr Aelodau i swyddogion, mewn perthynas â'r asesiad risg, a ellir tynnu sylw'r aelodau at y rheini sydd wedi newid yn hytrach na darparu'r asesiad risg llawn yn unig. Cadarnhaodd swyddogion fod y model hwn eisoes ar waith ac y byddai'n cael ei gyflwyno yn y cyfarfod nesaf.

## 7. **<u>PROTOCOL CYFARFOD BARGEN DDINESIG BAE ABERTAWE</u>**

Darparodd Jonathan Burnes amlinelliad byr o'r ddogfen.

Tynnodd yr Aelodau sylw'r swyddog at 5.1 ar yr agenda. Gofynnodd yr Aelodau am eglurhad ar y geiriad gan ei fod yn awgrymu bod y Swyddfa Rheoli Rhaglenni yn gosod yr agenda graffu i raddau helaeth. Cadarnhaodd yr Aelod mai'r pwyllgor craffu sy'n gosod yr agenda, ond bydd yn gweithio gyda'r SRhRh ar goladu'r wybodaeth sydd ei hangen ar gyfer yr agenda. Cytunodd yr Aelodau ar eiriad drafft mewn perthynas â’r cymal yn yr agenda a'i anfon at y SRhRh i'w ystyried.

Nododd yr Aelodau hefyd fod y cworwm ar 3.8 yn nodi 8 aelod, ond roedd y cworwm yn y broses o gael ei leihau i 6. Byddai hyn yn cael ei ddiwygio pan fyddai'r cworwm newydd yn cael ei gymeradwyo gan bob un o'r pedwar awdurdod.

Cytunodd y Pwyllgor i anfon geiriad drafft at y SRhRh ar gyfer newidiadau a awgrymir i'r geiriad o ran pennu agendâu.

## 8. **<u>ADOLYGIAD GATEWAY A CHYNLLUN GWEITHREDU</u>**

Mae'r Adolygiad Gateway yn adolygiad strategol a gynhelir gan swyddogion allanol. Mae'n adolygiad tridiau sy'n ystyried sut gall y rhaglen symud ymlaen. Cynhaliwyd yr adolygiad ym mis Gorffennaf a chafodd sgôr oren/gwyrdd am gyflawni.

Cafwyd un ar ddeg o argymhellion o'r adolygiad. Roedd pedwar yn argymhellion allweddol ac roedd chwech yn argymhellion ymgynghorol. Aeth Mr Burnes drwy'r argymhellion a'r diweddariadau’n fras fel yr amlinellir yn yr adroddiadau a ddarparwyd. Bydd yr holl argymhellion yn cael eu hystyried yn gyfartal gan Fwrdd y Rhaglen.

Dywedodd yr Aelodau y bydd ganddynt ddiddordeb mewn dysgu sut bydd y pwyllgor hwn yn cyd-fynd â threfniadau llywodraethu lleol yng ngoleuni'r Cyd-bwyllgorau Corfforaethol a fydd yn cael eu cyflwyno yn y dyfodol.

## 9. **<u>BLAENRAGLEN WAITH 2021-2022</u>**

Mynegodd yr Aelodau ddiddordeb mewn edrych ar flaenraglen waith y Cyd-bwyllgor.

Nododd yr Aelodau’r eitem hon.

10. **EITEMAU BRYS**

Nid oedd unrhyw eitemau brys.

**CADEIRYDD**